
Niwrowahaniaeth Cymru | Neurodivergence Wales
Cyngor Profiad Byw | Lived Experience Advice



# Diffiniadau Niworamrywiaeth

**Mae'r iaith o gwmpas sut mae'r ymennydd yn prosesu ac ymateb i wybodaeth yn gallu bod yn ddryslyd. Dyma rhai diffiniadau a allai helpu i egluro beth maen nhw'n ei olygu**

**Niwroamrywiaeth**

Mae niwroamrywiath yn cyfeirio at y ffaith nad yw pob ymenydd yn meddwl nac yn teimlo yn yr un ffordd a bod rhain yn wahaniaethau dynol naturiol. Mae niwroamrywiaeth yn cyfeirio at pawb.

**Niwroteip**

Mae gan bob un ohonom wahaniaethau unigol yn y ffordd y mae ein hymennydd yn gweithio. Fodd bynnag, mae yna hefyd grwpiau o bobl sy'n prosesu gwybodaeth mewn ffordd debyg i'w gilydd a chyfeirir atynt fel rhai sydd â'r un niwroteip. Mae hyn yn golygu y gall fod gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol niwroteipiau.

**Niwronodweddiadol**

Cyfeirir at y mwyaf o'r niwroteipiau hyn fel niwro-nodweddiadol. Dyma'r niwroteip mwyaf cyffredin. Gan fod pobl niwro-nodweddiadol yn y mwyafrif maent yn tueddu i ffynnu gan fod yr amgylchedd yn aml wedi ei adeiladu gan bobl niwronodweddiadol eraill sy'n golygu bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu.

**Niwrowahanol**

Gall niwroteipiau lleiafrifol gynnwys cyflyrau fel awtistiaeth, ADHD, dyscalcwlia, dyslecsia a Anhwylder Cydlynu Datblygiadol a gellir eu disgrifio hefyd fel cyflyrau niwroddatblygiadol. Gyda'i gilydd, cyfeirir at bobl â niwroteipiau lleiafrifol fel **niwrowahanol.**